# Asesiad Strwythuredig 2024 – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Blwyddyn archwilio: 2024

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4498A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y bwrdd 6

Systemau sicrwydd corfforaethol 14

Dull corfforaethol o gynllunio 19

Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol 22

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio 27

Atodiad 2 – Cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol 29

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2024 yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi'i gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fodloni ei hun bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Cynhaliwyd ein gwaith Asesu Strwythuredig 2024 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i gyfres ehangach o heriau yn gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Yn ogystal, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin â gwaddol pandemig COVID-19. Yn fwy nag erioed, felly, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau gael trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a all roi sicrwydd iddynt eu hunain, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, diogel ac ymatebol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

3 Mae ffocws allweddol y gwaith wedi bod ar drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda ffocws penodol ar y canlynol:

- tryloywder, cydlyniant ac effeithiolrwydd y bwrdd;
- systemau corfforaethol o sicrwydd;
- dull corfforaethol o gynllunio; a
- dull corfforaethol  o ran rheolaeth ariannol.

Nid ydym wedi adolygu trefniadau gweithredol yr Ymddiriedolaeth fel rhan o'r gwaith hwn.

4 Mae ein gwaith wedi cael ei lywio gan ein gwaith asesu strwythuredig blaenorol, sydd wedi'i ddatblygu a'i fireinio dros nifer o flynyddoedd. Mae hefyd wedi'i lywio gan y canlynol:

- Rheolau Sefydlog enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau;
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog enghreifftiol;
- cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol Llywodraeth Cymru;
- canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau'r GIG yng Nghymru (Ail Argraffiad);
- canllawiau arfer da perthnasol eraill.

Gwnaethom ein gwaith rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2024. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith wedi'u crynhoi yn **Atodiad 1**. Cynhaliwyd ein gwaith yn unol â'r safonau archwilio a osodwyd gan y Sefydliad Rhyngwladol o Sefydliadau Archwilio Goruchaf.

5 Rydym hefyd yn darparu diweddariad yn yr adroddiad hwn ar gynnydd yr Ymddiriedolaeth wrth fynd i'r afael ag argymhellion a oedd yn weddill a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol yn **Atodiad 2**.

## Canfyddiadau allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gael ei harwain a'i llywodraethu'n dda, gyda gweledigaeth a blaenoriaethau strategol clir, systemau sicrwydd yn gwella a threfniadau effeithiol ar gyfer rheoli ei chyllid. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn parhau i sicrhau bod papurau'r Bwrdd a'r pwyllgor, Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi craffu a gwneud penderfyniadau effeithiol**:

- gwnaethom ystyried a yw Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. **Canfuom fod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithio'n dda, gydag ymrwymiad parhaus i dryloywder cyhoeddus, gwelliant parhaus, a chlywed gan gleifion a rhoddwyr. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn parhau i gynyddu mynediad cyhoeddus i fusnes y Bwrdd a gwella ansawdd papurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau**.
- gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn ar gyfer rheoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. **Canfuom fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei systemau corfforaethol o sicrwydd. Fodd bynnag, nid yw Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cynnwys digon o wybodaeth am y camau lliniaru sydd ar waith a'u heffaith, ond mae cynllun ar waith i fynd i'r afael ag anghenion gwybodaeth y Bwrdd a'i bwyllgorau**.
- gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau corfforaethol a goruchwylio eu cyflawniad. **Canfuom fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol o hyd ar gyfer cynhyrchu, goruchwylio a chraffu ar ddatblygu a chyflwyno strategaethau a chynlluniau corfforaethol**.
- gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o reoli ei hadnoddau ariannol. **Canfuom fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â dull cadarn o gynllunio ariannol a chyflawni arbedion**.

## Argymhellion

7 Er nad ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd eleni, fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau yr ymdrinnir ag argymhellion o'r blynyddoedd blaenorol (gweler **Atodiad 2**).

# Adroddiad manwl

## Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y bwrdd

8 Gwnaethom ystyried a yw Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw.

9 Canfuom fod **y Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithio'n dda, gydag ymrwymiad parhaus i dryloywder cyhoeddus, gwelliant parhaus, a chlywed gan gleifion a rhoddwyr. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn parhau i gynyddu mynediad cyhoeddus i fusnes y Bwrdd a gwella ansawdd papurau'r Bwrdd a phwyllgorau**.

### Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

10 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hyrwyddo ac yn dangos ymrwymiad i dryloywder cyhoeddus busnes bwrdd a phwyllgorau. Rydym yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- Cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau sy'n hygyrch i'r cyhoedd;
- Papurau'r bwrdd a phwyllgorau ar gael i'r cyhoedd cyn cyfarfodydd;
- Busnes a phroses gwneud penderfyniadau y Bwrdd yn cael eu cynnal yn dryloyw.

11 Canfuom fod **y Bwrdd yn parhau i ddangos ymrwymiad i gynnal ei fusnes yn dryloyw, er bod nifer fach o gyfleoedd yn parhau i gynyddu mynediad cyhoeddus i fusnes y Bwrdd**.

12 Mae holl gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn parhau i gael eu ffrydio'n fyw er mwyn caniatáu i'r cyhoedd arsylwi'n rhithwir, gyda recordiadau ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Yn 2024, mae'r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i gyflwyno trefniadau i gyfieithu trafodaethau yn Gymraeg a Saesneg ar y pryd.

13 Mae gwefan yr Ymddiriedolaeth yn nodi sut y gall aelodau'r cyhoedd gofrestru i arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd. Y llynedd, gwelsom mai anaml y gwnaeth yr Ymddiriedolaeth hysbysebu cyfarfodydd y Bwrdd ar ei sianeli cyfryngau cymdeithasol (gweler **Atodiad 2 A1 2023**). Eleni, gwelsom fod yr Ymddiriedolaeth wedi sefydlu trefniadau i roi cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd y Bwrdd drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i beidi â ffrydio'n fyw na chofnodi ei chyfarfodydd pwyllgor cyhoeddus (ac eithrio at ddiben cymryd cofnodion).

14 Cyhoeddir papurau'r Bwrdd ar wefan yr Ymddiriedolaeth cyn cyfarfodydd. Mewn asesiadau strwythuredig blaenorol, gwnaethom dynnu sylw at y ffaith bod papurau ar gyfer rhai cyfarfodydd pwyllgorau wedi'u cyhoeddi ar wefan yr Ymddiriedolaeth ymhell ar ôl i gyfarfodydd ddigwydd. Eleni, rydym wedi canfod bod papurau pwyllgorau yn cael eu cyhoeddi'n gyffredinol ar yr un pryd ag y maent ar gael i aelodau'r pwyllgor cyn cyfarfodydd.

15 Rydym yn parhau i arsylwi trafodaethau agored a gonest yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a phwyllgorau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn lleihau'r defnydd o

sesiynau preifat Bwrdd a phwyllgorau, gan gadw'r rhain ar gyfer materion cyfrinachol a sensitif yn unig. Yn ein Hasesiad Strwythuredig yn 2023, canfuom nad oedd yr Ymddiriedolaeth wedi rhoi cyhoeddusrwydd ymlaen llaw i'r hyn sydd i'w drafod yng nghyfarfodydd preifat y Bwrdd neu bwyllgorau nac yn cyhoeddi crynodebau o'r hyn a drafodwyd ar ôl cyfarfodydd (gweler **Atodiad 2 A2a** ac **A2b 2023**). Yn 2024, mae agenda cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a phwyllgorau wedi cynnwys rhestr o eitemau i'w trafod mewn cyfarfodydd preifat. Ar adeg ysgrifennu hwn, roedd yr Ymddiriedolaeth yn drafftio Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig, a oedd i fod i gael ei gymeradwyo yng nghyfarfod Pwyllgor Archwilio Rhagfyr 2024. Mae'r Llawlyfr yn nodi trefniadau ar gyfer cyhoeddi crynodebau cyfarfodydd preifat y Bwrdd a phwyllgorau wrth symud ymlaen.

16 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gofnodi penderfyniadau brys a wnaed gan y Cadeirydd rhwng cyfarfodydd rheolaidd y Bwrdd. Mae'r holl benderfyniadau brys yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn ysgrifenedig ar gyfer craffu a chadarnhau.

17 Cyhoeddir cofnodion y Bwrdd sydd heb eu cadarnhau ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn gyffredinol 22 diwrnod ar ôl cyfarfodydd (unwaith y byddant wedi'u gwirio) a'u hailosod unwaith y byddant wedi'u cadarnhau yn y cyfarfod dilynol. Fel y nodwyd yn gynharach, gall aelodau'r cyhoedd arsylwi cyfarfodydd yn fyw neu wylio recordiadau yn fuan ar ôl y cyfarfod.

18 Y llynedd, gwnaethom adrodd nad oedd cofnodion pwyllgor ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol tan o leiaf ddau fis ar ôl cyfarfodydd. Argymhellwyd y dylai'r Ymddiriedolaeth anelu at gyhoeddi cofnodion pwyllgor heb eu cadarnhau cyn gynted â phosibl ar ôl pob cyfarfod (gan ganiatáu amser i gadeirydd y cyfarfod ac arweinydd gweithredol perthnasol wirio cywirdeb), gan barhau i gadw cadarnhad llawn o gywirdeb yn y cyfarfod canlynol (gweler **Atodiad 2 A3 2023**). Mae cofnodion cyfarfod heb eu cadarnhau bellach yn cael eu cynhyrchu'n rheolaidd yn dilyn cyfarfodydd pwyllgorau, ond nid ydynt bob amser yn cael eu cyhoeddi. Yn nodedig, nid yw cofnodion heb eu cadarnhau ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad, na'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol wedi'u cyhoeddi[1].

## Trefniadau i gefnogi'r gwaith o gynnal busnes y Bwrdd

19 Gwnaethom ystyried a oes trefniadau priodol a thryloyw ar waith i gefnogi'r gwaith o gynnal busnes y Bwrdd a phwyllgorau yn effeithiol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth fod y canlynol yn ffurfiol, yn gyfoes ac ar gael i'r cyhoedd:

- Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chynllun Dirprwyo ar waith, sy'n nodi'n glir atebolrwydd;

[1] Canfu archwiliad gwefan ar 18 Tachwedd 2024 nad oedd cofnodion heb eu cadarnhau ar gyfer y cyfarfodydd canlynol ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth: Pwyllgor Archwilio (17 Medi 2024), cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad (12 Medi 2024) a'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (5 Medi 2024).

- Rheolau Sefydlog (RhS) a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar waith, ynghyd â thystiolaeth o gydymffurfiaeth;
- polisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a sicrhau uniondeb a phriodoldeb.

20 Canfuom fod **gan y Bwrdd drefniadau effeithiol o hyd i gefnogi'r gwaith o gynnal ei fusnes**.

21 Mae trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gefnogi'r gwaith o gynnal busnes y Bwrdd a phwyllgorau yn effeithiol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu ei Rheolau Sefydlog, y Cynllun Cadw a Dirprwyo, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn rheolaidd. Diweddarwyd y Rheolau Sefydlog ddiwethaf ym mis Medi 2024, ac fe'u hardystiwyd gan y Pwyllgor Archwilio a'u cymeradwyo gan y Bwrdd yn eu cyfarfodydd ym mis Medi.

22 Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn y Gofrestr Rhoddion, Nawdd, Lletygarwch a Honoraria bob chwe mis. Adolygodd y gofrestr ddiwethaf ym mis Medi 2024. Gwnaethom arsylwi datganiadau o fuddiant a wnaed fel mater o drefn ar ddechrau'r cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau fel eitem sefydlog.

23 Mae gan yr Ymddiriedolaeth bolisi a gweithdrefnau ar waith ar gyfer polisïau a dogfennau rheoli ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mae Cofrestr Rheoli i gofnodi statws polisïau a'u dyddiadau adolygu. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ym mis Medi 2024, adroddwyd bod 71 (67.6%) o 108 o bolisïau o fewn y dyddiad adolygu a bod 34 (32.4%) wedi pasio eu dyddiad adolygu. O'r 34 polisi sydd wedi mynd heibio eu dyddiad adolygu, roedd 9 yn bolisïau Cymru gyfan. Mae cynnydd yn cael ei wneud i sicrhau bod polisïau sydd wedi mynd heibio eu dyddiad adolygu yn cael sylw, gyda chydymffurfiad polisi yn gwella 18% ers mis Medi 2023. Er bod y cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r polisïau sydd wedi dyddio wedi'i ddatblygu a'i rannu gyda'r pwyllgor, nododd aelodau'r pwyllgor fod angen bod yn gliriach ynghylch y dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r adolygiad ar gyfer pob polisi. Canfu ein hadolygiad enghreifftiol fod polisïau newydd yn cael eu gosod fel mater o drefn ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn dilyn cymeradwyaeth.

## Effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau

24 Gwnaethom ystyried a yw cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau yn cael eu cynnal yn briodol ac yn effeithiol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- strwythur pwyllgor priodol, integredig yn gweithredu'n dda ar waith, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau a risgiau strategol allweddol, sy'n adlewyrchu canllawiau perthnasol, ac yn helpu i gyflawni gofynion statudol;
- agendâu a rhaglenni gwaith y Bwrdd a phwyllgorau sy'n ymdrin â phob agwedd ar eu Cylch Gorchwyl priodol yn ogystal â chael eu llunio'n barhaus gan Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;
- cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau wedi'u cadeirio'n dda sy'n dilyn prosesau y cytunwyd arnynt, gydag aelodau'n arsylwi ar arferion cyfarfod a darparu cydbwysedd da o graffu, cefnogaeth a her;

- pwyllgorau yn derbyn ac yn gweithredu ar y sicrwydd gofynnol ac yn rhoi sicrwydd amserol a phriodol i'r Bwrdd.

25 Canfuom fod **strwythur y Bwrdd a phwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol. Mae cyfarfodydd yn parhau i gael eu rheoli'n dda, gyda chraffu, herio a thrafod da.**

26 Mae strwythur pwyllgor priodol ac integredig ar waith, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau a risgiau strategol allweddol ac sy'n bodloni gofynion statudol. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer pob pwyllgor yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae pwyllgorau hefyd yn adolygu eu cylchoedd busnes yn rheolaidd. Mae arweinwyr gweithredol a chadeiryddion pwyllgorau yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu cylchoedd busnes a chytuno ar agendâu cyfarfodydd.

27 Yn ystod 2024, mae presenoldeb personol wedi cael ei annog ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau, ond yn ddefnyddiol mae'r opsiwn i fod yn bresennol yn rhithwir wedi'i gadw. Mae'r dull hwn yn gweithio'n dda.

28 Mae cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau yn parhau i gael eu cadeirio'n dda, ac mae'r aelodau'n arsylwi ar arferion cyfarfod da. Rydym wedi gweld Aelodau Annibynnol yn cynnig gwaith craffu cadarn gyda chydbwysedd da o her a chefnogaeth. Yr hyn sydd o gymorth yw bod materion allweddol yn parhau i gael eu trafod ar ddechrau'r cyfarfodydd er mwyn sicrhau amser digonol ar gyfer craffu pan fo lefelau egni yn uwch, ac mae'r defnydd priodol o agendâu cydsynio yn parhau.

29 Mae croesgyfeirio materion rhwng pwyllgorau ac o bwyllgorau i'r Bwrdd yn parhau'n dda. Mae pwyllgorau'n cynhyrchu papurau uchafbwyntiau o ansawdd da sy'n amlygu materion allweddol yn effeithiol ar gyfer uwchgyfeirio a sicrwydd ac sydd i'w trafod yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal cyfarfodydd deufisol ar gyfer aelodau annibynnol i gefnogi triongli gwybodaeth a dderbynnir mewn cyfarfodydd.

## Ansawdd ac amseroldeb papurau'r Bwrdd a phwyllgorau

30 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn derbyn gwybodaeth amserol, o ansawdd uchel sy'n cefnogi gwaith craffu, sicrwydd a gwneud penderfyniadau yn effeithiol. Rydym yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- Papurau'r Bwrdd a phwyllgorau clir ac amserol sy'n cynnwys y lefel angenrheidiol/briodol o wybodaeth sydd ei hangen er mwyn sicrhau gwneud penderfyniadau, craffu a sicrwydd effeithiol.

31 Canfuom, **er ein bod yn dechrau gweld rhai gwelliannau, mae angen o hyd i bapurau'r Bwrdd a phwyllgorau ganolbwyntio'n well ar faterion allweddol. Pan fydd papurau yn nodi mentrau ar gyfer gwelliannau, mae angen iddynt gael eu cefnogi'n gyson gan gamau gweithredu CAMPUS[2] ac mae angen mwy o sicrwydd ynghylch effaith y camau a gymerir**.

[2] CAMPUS yw'r acronym sy'n cyfateb i SMART Specific, Measureable, Achieveable, Relevant and Time Bound.

32 Canfu ein hadolygiad sampl ddefnydd cyson yn gyffredinol o adroddiad clawr safonol y Bwrdd a phwyllgorau. Lle bo'n briodol, mae'r Bwrdd wedi gosod awydd i bapurau clawr gynnwys asesiad o lefel y sicrwydd[3]a ddarparwyd. Mae hyn yn helpu awduron papur i asesu digonolrwydd y sicrwydd a ddarperir ac a oes angen gweithredu pellach. O bryd i'w gilydd, mae papurau wedi cael eu sgorio'n rhy uchel, ond pryd digwyddodd hyn, fe ysgogodd gwaith graffu a her dda ar y broses sgorio, a gwnaed newidiadau lle bo hynny'n briodol. Dywedodd aelodau'r bwrdd wrthym fod lefelau system sgorio sicrwydd yn eu helpu i ganolbwyntio sylw a chraffu ar eitemau’r agenda a sgoriodd leiaf.

33 Mae adroddiadau clawr y Bwrdd a phwyllgorau yn nodi'n glir a yw papurau eisoes wedi bod yn destun craffu mewn cyfarfodydd blaenorol. Fodd bynnag, y llynedd, gwelsom fod crynodebau trafodaethau blaenorol weithiau'n rhy fyr ac nad oeddent bob amser yn nodi canlyniadau trafodaethau (gweler **Atodiad 2 A4 2023**). Canfu ein hadolygiad sampl o adroddiadau clawr 2024 welliannau. Yn gyffredinol, mae crynodebau'n darparu amlinelliad priodol o drafodaethau a gynhaliwyd mewn cyfarfodydd blaenorol a chamau gweithredu sy'n deillio o hynny.

34 Mewn asesiadau strwythuredig blaenorol, rydym wedi tynnu sylw at anawsterau wrth gynnal cyfarfodydd pwyllgorau yn brydlon oherwydd nifer y papurau a'r manylion a ddarperir ynddynt. Yn ein hadroddiad asesu strwythuredig yn 2023, dywedom hefyd nad oedd rhai papurau yn rhoi digon o sicrwydd ynghylch effaith mentrau neu gamau a gymerwyd, a bod angen o hyd i sicrhau bod adroddiadau a phapurau clawr y Bwrdd a phwyllgorau yn canolbwyntio ar faterion allweddol.

35 Mae hyfforddiant wedi'i ddarparu i awduron adroddiadau a phapurau clawr y Bwrdd a phwyllgorau, ac rydym wedi gweld tystiolaeth o rywfaint o welliant. Fodd bynnag, mae mwy o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod adroddiadau a phapurau clawr yn crynhoi a thriongli gwybodaeth yn gyson er mwyn helpu i ganolbwyntio ar faterion allweddol. Rydym yn nodi bod rhai papurau pwyllgor yn fwy na 800 tudalen o hyd. Mae angen parhau i sicrhau bod meysydd gwella sydd wedi'u cynnwys ym mhapurau'r Bwrdd a phwyllgorau yn cael eu cefnogi'n gyson gan gamau gweithredu CAMPUS. Yn yr un modd, mae tuedd o hyd i gyflwyniadau a phapurau ddarparu manylion am weithgaredd, ond llai o eglurder ynghylch a yw'r canlyniadau neu'r effaith a ddymunir wedi'u cyflawni (gweler **Atodiad 2 A6 2023**). Mae Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig yr Ymddiriedolaeth yn eglur mewn perthynas â chyfrifoldebau'r awduron a'r arweinwyr gweithredol o ran cynnwys a phwyslais yr adroddiad. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cyhoeddi templed adroddiad clawr Bwrdd/pwyllgorau diwygiedig gyda chanllawiau cysylltiedig ar gyfer awduron.

36 Yn ystod 2024, bu sgyrsiau hirach mewn cyfarfodydd pwyllgor oherwydd trafodaethau am wella’r ffordd y cyflwynir gwybodaeth, yn hytrach na'r wybodaeth

[3] Mabwysiadodd yr Ymddiriedolaeth y model sicrwydd saith lefel yn 2023, gyda sgôr sero yn golygu na chytunwyd ar unrhyw gamau gweithredu ac nad yw gwelliant yn amlwg, hyd at sgôr lefel saith sy'n cyfateb i'r ffaith bod yr holl gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol wedi’u cytuno a'u gweithredu, gydag arwyddion amlwg o welliant.

ei hun. Ein barn ni yw y byddai gwella ffocws papurau a gwybodaeth a gyflwynir yn helpu i sicrhau bod cyfarfodydd yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig ac yn rhedeg i amser. Yn ystod 2024, rydym wedi gweld arweiniad clir gan gadeiryddion cyfarfodydd y dylai eitemau a gyflwynir i gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ganolbwyntio ar negeseuon allweddol, rhoi eglurder ar y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella, effaith gweithgaredd/penderfyniadau a wnaed, a gwersi a ddysgwyd. Mae ail gam Rhaglen Llywodraethu, Sicrwydd a Gwaith Risg yr Ymddiriedolaeth[4] yn rhoi cyfle i'r Bwrdd gytuno ar anghenion gwybodaeth y Bwrdd a phwyllgorau ar y cyd a sicrhau bod trefniadau i'w bodloni yn cael eu hymgorffori (gweler **Atodiad 2 A6 2023**).

37 Yn gadarnhaol, canfu ein hadolygiad o'r Adroddiadau Ansawdd a Diogelwch chwarterol newydd a luniwyd gan y Grŵp Ansawdd a Diogelwch Integredig ac a adroddwyd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad eu bod yn nodi'n gryno ddata a naratif i grynhoi a dadansoddi canlyniadau, gweithgarwch, dysgu a gwella allweddol. Mae'r adroddiadau chwarterol yn disodli nifer o adroddiadau hir a manwl weithredol ac yn galluogi'r darllenydd i nodi materion allweddol yn gyflym.

38 Mae'r Ymddiriedolaeth yn dosbarthu papurau'r Bwrdd a phwyllgorau i'r rhai a fydd yn bresennol cyn y cyfarfodydd, er ein bod wedi nodi ar adegau bod rhai papurau unigol ar gael ddiwrnod neu ddau yn unig cyn cyfarfodydd pwyllgor.

## Ymrwymiad y Bwrdd i glywed oddi wrth gleifion/defnyddwyr gwasanaethau a staff

39 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hyrwyddo ac yn dangos ymrwymiad i glywed oddi wrth gleifion/defnyddwyr gwasanaethau a staff. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o’r canlynol:

- bod y Bwrdd yn defnyddio ystod o ddulliau addas i glywed oddi wrth amrywiaeth o gleifion/defnyddwyr gwasanaethau, y cyhoedd a staff.

40 Canfuom fod **y Bwrdd yn hyrwyddo ac yn dangos ymrwymiad cadarnhaol i glywed oddi wrth gleifion a rhoddwyr**.

41 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ymgysylltu'n rheolaidd ag eiriolwyr cleifion trwy Llais[5]. Gwahoddir cynrychiolwyr Llais i fynychu cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau a rhoi barn ar newidiadau i wasanaethau a hygyrchedd cyhoeddus busnes yr Ymddiriedolaeth.

42 Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn parhau i ddechrau gyda naill ai stori claf, rhoddwr neu staff, yn gadarnhaol ac yn negyddol, sy'n ddefnyddiol i osod y naws ar gyfer gweddill y cyfarfodydd. Mae'r pwyllgor hefyd yn derbyn adborth defnyddwyr gwasanaethau yn rheolaidd. O'n harsylwadau, nodwn fod Aelodau Annibynnol yn parhau i graffu yn gadarn ar

[4] Rhaglen waith i ddatblygu a gwella dulliau llywodraethu, risg a sicrwydd yr Ymddiriedolaeth.

[5] Mae Llais yn gorff sy'n cynrychioli cleifion.

effaith bosibl penderfyniadau ar gleifion a rhoddwyr, a chanfyddiadau adborth defnyddwyr gwasanaethau.

43 Nid yw'r Bwrdd yn cynnwys straeon defnyddwyr gwasanaethau a staff yn ei gyfarfodydd. Dylai ystyried a fyddai'n ddefnyddiol cychwyn cyfarfodydd gyda stori neu gymryd camau i wella papurau gyda mwy o straeon i roi cyfle i holl aelodau'r Bwrdd glywed gan amrywiaeth o randdeiliaid i ddeall effaith ei benderfyniadau ar ddarparu gwasanaethau.

44 Lansiodd yr Ymddiriedolaeth Ymweliadau Her 15 Cam[6] yn 2021. Mae'r ymweliadau'n gyfle i Aelodau Annibynnol a swyddogion gweithredol ymweld ac archwilio lleoliadau gofal iechyd trwy lygaid cleifion a'u perthnasau/gofalwyr. Bwriad yr Ymddiriedolaeth yw i bob aelod o'r Bwrdd gymryd rhan mewn o leiaf dau Ymweliad Her 15 Cam y flwyddyn. I ddechrau, cyfyngwyd cyfleoedd i gynnal Ymweliadau Her 15 Cam oherwydd gofynion ymbellhau cymdeithasol yn sgil pandemig COVID-19. Rhwng mis Mehefin 2021 a mis Mawrth 2024, dim ond 14 ymweliad a gynhaliwyd. Ym mis Mawrth 2024, gofynnodd Aelodau Annibynnol am rannu blaenraglen o ymweliadau â'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad. Mae amserlen wedi'i sefydlu i ganiatáu o leiaf dau ymweliad y mis dros y chwe mis canlynol.

45 Cedwir cofnod o Ymweliadau Her 15 Cam a nodir meysydd i'w gwella. Ar gyfer yr ymweliadau a gynhaliwyd rhwng 2021 a 2024, roedd y themâu a nodwyd yn ymwneud â gwybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau mewn lleoliadau clinigol, y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg, a mesurau rheoli ac atal heintiau. Er bod y rhan fwyaf o gamau i fynd i'r afael ag argymhellion wedi'u cwblhau, mae amrywioldeb wrth adrodd ar gynnydd i fodloni argymhellion sy’n weddill gyda dyddiadau targed diwygiedig. Dywedwyd wrthym, wrth symud ymlaen, y bydd cynnydd i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella yn cael ei olrhain trwy'r traciwr archwilio ansawdd a diogelwch.

46 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi sefydlu grŵp Lleisiau Felindre er mwyn i gleifion, gofalwyr ac aelodau o'r gymuned ehangach ymgysylltu ag ef wrth ddatblygu gwasanaethau. Mae Bwrdd Partneriaeth Cleifion a Gofalwyr hefyd i gynrychioli barn pobl sydd â phrofiad bywyd o ganser er mwyn cyfrannu at ddylunio gwasanaethau.

47 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynhyrchu dadansoddiad o ganlyniadau Arolwg Staff y GIG 2023 (y cyntaf ers 2020). Darparwyd dadansoddiad cychwynnol ar sail Ymddiriedolaeth gyfan a'i rannu gyda'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r adroddiad yn darparu dadansoddiad o themâu allweddol ar draws yr Ymddiriedolaeth i'w trafod. Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynhyrchu dadansoddiadau lefel is-adrannol/adrannol o'r canlyniadau i nodi mannau problemus a chaniatáu dealltwriaeth o brofiad staff ar lefel leol i ysgogi trafodaeth ar gamau posibl i fynd i'r afael â chanfyddiadau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu rhaglen waith i fynd i'r afael â chanfyddiadau

[6] Mae Ymweliadau Her 15 Cam yn archwilio lleoliadau gofal iechyd trwy lygaid cleifion a pherthnasau.

allweddol gan staff y GIG a mathau eraill o adborth staff. Bydd ein hadolygiad arfaethedig o'r cynnydd i fynd i'r afael ag argymhellion ein hadroddiad Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd 2022 yn ystyried y trefniadau i'r Bwrdd glywed yn ehangach gan staff.

## Cydlyniant y Bwrdd ac ymrwymiad i welliant parhaus

48 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn sefydlog ac yn gydlynol ac yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- Bwrdd sefydlog a chydlynol gyda chnewyllyn o uwch arweinwyr sydd â'r gallu, y sgiliau a'r profiad priodol;
- bod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn adolygu eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd a defnyddio'r canfyddiadau i lywio a chefnogi gwelliant parhaus;
- bod rhaglen berthnasol o ddatblygu, cefnogaeth a hyfforddiant Bwrdd ar waith.

49 Canfuom fod y **Bwrdd yn parhau i ddangos ymrwymiad cadarnhaol i welliant parhaus**.

50 Roedd gan yr Ymddiriedolaeth Fwrdd cymharol sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, roedd ymddeoliad y Prif Swyddog Gweithredol ym mis Mehefin 2024 yn gofyn am newidiadau dros dro i leihau ansefydlogrwydd a chynnal parhad busnes. Fe gamodd aelod o'r tîm gweithredol i swyddogaeth y Prif Swyddog Gweithredol dros dro, ac arweiniodd hyn at drefniadau ôl-lenwi interim dilynol. Cafodd effaith y newidiadau ei lleihau oherwydd bod tîm arweinyddiaeth weithredol cryf a phrofiadol ar waith. Daeth y broses recriwtio ar gyfer penodiad parhaol ar gyfer swyddogaeth y Prif Swyddog Gweithredol i ben yn hydref 2024, a disgwylir i'r deiliad swydd newydd ddechrau ym mis Rhagfyr 2024.

51 Mae gan Aelodau Annibynnol bortffolio amrywiol o sgiliau a phrofiadau. Mae telerau swydd Aelodau Annibynnol yn cael eu darwahanu, sy'n lleihau ansefydlogrwydd y Bwrdd ac yn helpu i leihau'r risg o golli gwybodaeth a phrofiad pan ddaw'r tymhorau i ben. Penodwyd Aelod Annibynnol newydd yn 2024, er bod y swydd wag ar gyfer Aelod Annibynnol (Cyllid) yn parhau ar agor. Fodd bynnag, mae disgwyl i'r telerau presennol ar gyfer swydd Cadeirydd y Bwrdd a'r Is-gadeirydd ddod i ben yn 2025. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llunio cynlluniau recriwtio ond mae'n aros am gytundeb gan Lywodraeth Cymru ar y trefniadau. Bydd angen i'r Bwrdd barhau i adolygu ei raglen hyfforddi a datblygu'r broses gynefino i adlewyrchu anghenion aelodau newydd gweithredol ac anweithredol o'r Bwrdd.

52 Mae aelodau'r Bwrdd wedi ymrwymo i adolygu effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau a gwneud gwelliannau angenrheidiol, gyda phwyllgorau'n cynnal adolygiadau blynyddol ac yn nodi gwelliannau sydd eu hangen i fynd i'r afael â chanfyddiadau. Thema gyson yw'r angen i fynd i'r afael ag anghenion gwybodaeth, fel y trafodwyd ym **mharagraffau 33 i 39**. Yn gadarnhaol, mae'r Ymddiriedolaeth

yn parhau i ddefnyddio asesiad aeddfedrwydd ac yn ei Adroddiad Atebolrwydd 2023-24, rhoddodd y Bwrdd lefel pedwar allan o bump posibl[7] iddo'i hun. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn un o ddim ond dau gorff GIG yng Nghymru sy'n defnyddio'r asesiad aeddfedrwydd hwn.

# Systemau sicrwydd corfforaethol

53 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

54 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei systemau sicrwydd corfforaethol. Fodd bynnag, nid yw Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cynnwys digon o wybodaeth am y camau lliniaru sydd ar waith a'u heffaith, ond mae cynllun ar waith i fynd i'r afael ag anghenion gwybodaeth y Bwrdd a'i bwyllgorau**.

## Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau strategol

55 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar risgiau strategol i gyflawni blaenoriaethau/amcanion strategol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (FfSB) sy'n gyfredol ac ar gael i'r cyhoedd ar waith, sy'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol am y risgiau i gyflawni blaenoriaethau/amcanion strategol y sefydliad;
- y Bwrdd yn perchnogi, adolygu, diweddaru a defnyddio'r FfSB i oruchwylio, craffu, a mynd i'r afael â risgiau strategol.

56 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddatblygu ei Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth, ond mae gwaith yn parhau i sicrhau ei bod yn rhoi eglurder ar y camau sydd ar waith i gau bylchau mewn rheolaethau a sicrwydd a'u heffaith gysylltiedig**.

57 Yn ein hadroddiad asesu strwythuredig blaenorol, gwnaethom adrodd bod yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i gymryd camau cadarnhaol i ddatblygu a gwella ei Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth[8], er bod y cynnydd i adnewyddu'r risgiau strategol yn araf yn ystod 2023. O ganlyniad, ni adolygwyd Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth gan y Bwrdd na'i bwyllgorau mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2023.

[7] Wedi'i ddiffinio fel 'cael cynlluniau a phrosesau sydd wedi'u datblygu'n dda ac yn gallu dangos gwelliant cynaliadwy ledled y sefydliad'.

[8] Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yw'r hyn y byddem yn ei ystyried yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, dogfen allweddol a ddefnyddir i gofnodi ac adrodd ar amcanion, risgiau, rheolaethau a sicrwydd strategol allweddol sefydliad i'r Bwrdd.

58 Cymeradwywyd wyth risg strategol newydd gan y Bwrdd yn 2024, ac wedi hynny poblogwyd Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth gyda'r risgiau newydd a'r rheolaethau a'r sicrwydd cysylltiedig (gweler **Atodiad 2 A1a 2019**).

59 Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau perthnasol wedi derbyn ac ystyried Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth ym mhob un o'u cyfarfodydd yn 2024. Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn dewis risgiau strategol yn rheolaidd ar gyfer astudiaeth ddofn mewn cyfarfodydd pwyllgor.

60 Yng nghyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau, rydym wedi gweld her a chraffu da ar risgiau strategol, gydag ymatebion priodol. Fodd bynnag, yn ystod 2024, mae Aelodau Annibynnol wedi tynnu sylw at gyflwyno gwybodaeth a gynhwysir yn Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth. Mae amrywioldeb yn yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ac yn aml mae'r dyddiad targed ar gyfer cau bylchau mewn rheolaethau a sicrwydd yn cael ei hepgor, yn ogystal â manylion y cynnydd sy'n cael ei wneud i'w cau. Mae cyfleoedd hefyd i fod yn gliriach ynghylch effaith y camau gweithredu gorffenedig. Er bod risgiau strategol yn cael eu mynegi, nid yw'r rhain yn gysylltiedig â'r amcanion strategol. Yn ystod haf 2024, mapiodd yr Ymddiriedolaeth flaenoriaethau'r cynllun tymor canolig integredig 2024-27 i risgiau strategol yn Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau i adolygu'r risgiau strategol a mapio'r blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun tymor canolig integredig 2025-28 ochr yn ochr â datblygiad y cynllun. Byddai rhywfaint o fireinio i gyflwyno'r wybodaeth a gynhwysir yn cefnogi gwell sicrwydd.

61 Mae newidiadau pellach wedi'u cynllunio ar gyfer Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu mudo Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth i feddalwedd a fydd yn helpu i awtomeiddio'r broses o ddiweddaru'r wybodaeth a'r cynlluniau i dynnu sylw at newidiadau diweddar yn gliriach. Mae cytundeb cyffredinol bod angen i'r Bwrdd gyda'i gilydd gytuno pa wybodaeth y mae angen ei chynnwys yn Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth a sicrhau bod y trefniadau ategol sy'n ofynnol ar waith i sicrhau ei fod yn cael ei diweddaru.

62 Mae'r Bwrdd wedi cytuno, wrth symud ymlaen, y bydd y gwaith o adnewyddu risgiau strategol yn digwydd yn flynyddol yn unol â gwaith i ddatblygu cynlluniau tymor canolig integredig a'r blaenoriaethau busnes sydd ynddo. Hefyd, pan fydd risgiau strategol yn cael eu hadolygu, bydd risgiau presennol yn parhau i gael eu hadrodd hyd nes y cytunir ar y risgiau strategol newydd.

## Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau corfforaethol

63 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar risgiau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- bod fframwaith rheoli risg priodol a chyfredol ar waith, wedi'i danategu gan bolisïau, gweithdrefnau a rolau a chyfrifoldebau clir;

- bod y Bwrdd yn darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar effeithiolrwydd y system rheoli risg a'r risgiau corfforaethol.

64 Canfuom fod **bylchau wedi bod yn yr wybodaeth a gyflwynwyd yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol erbyn 2024; fodd bynnag, mae arwyddion o welliant a chynllun i sicrhau bod anghenion gwybodaeth yn cael eu diwallu**.

65 Yn ein hadroddiad Asesu Strwythuredig 2023, argymhellwyd bod papurau ar gyfer y Gofrestr Risgiau Corfforaethol (CRC) yn cynnwys rhesymeg dros pam mae risgiau wedi'u tynnu o'r CRC, megis lle mae lliniaru risg yn cael effaith gadarnhaol. Eleni, gwelsom fod adroddiadau ar gyfer y CRC yn tynnu sylw at risgiau newydd, risgiau caeedig, ac a fu newid (neu beidio) i'r risgiau sy'n weddill (gweler **Atodiad 2 A5 2023**).

66 Y llynedd, gwnaethom adrodd bod gwelliannau i'r CRC wedi arwain at fwy o wybodaeth ar gael i gefnogi craffu ar risgiau gweithredol, gan gynnwys tueddiadau sgôr risg unigol a chamau gweithredu CAMPUS i liniaru risg. Yn ystod 2024, gostyngodd capasiti rheoli risg corfforaethol am sawl rheswm. O ganlyniad, ers mis Mawrth 2024, roedd y CRC a rannwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgor yn cynnwys adroddiad a dynnwyd o Datix[9] yn hytrach na'r adroddiad a gynhyrchwyd â llaw. O ganlyniad, mae'r wybodaeth a gynhwysir ym mhob iteriad[10] o'r CRC wedi amrywio. Fodd bynnag, er bod llawer o wybodaeth wedi'i chynnwys, mae gan rai Aelodau Annibynnol bryderon y bu hepgoriadau hanfodol, gan gynnwys gwybodaeth am berchnogion risg, tueddiadau sgôr risg, gweithredoedd CAMPUS, a gwybodaeth i ddangos a yw camau i liniaru risg yn effeithiol. Canfu ein hadolygiad o CRC Gorffennaf 2024 ei bod yn anodd deall a oedd pob risg yn cynnwys camau gweithredu wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r risg a'r dyddiad targed ar gyfer cwblhau. Mae'n ymddangos bod dryswch ynghylch pa wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn un maes data yn Datix[11] a allai esbonio pam y mae'r camau i fynd i'r afael â risgiau yn aml yn cael eu hepgor.

67 Mae'r her capasiti rheoli risg corfforaethol wedi golygu bod goruchwyliaeth gorfforaethol o wybodaeth risg a gyflwynwyd i'r Bwrdd a'i bwyllgorau wedi bod yn llai nag y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei dymuno neu ei hangen. Fodd bynnag, rydym yn cael ein sicrhau gan drafodaethau ar risgiau gweithredol, fod camau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â risg, er nad yw bob amser wedi'i nodi'n briodol yn y CRC.

68 Yn gadarnhaol, mae'r fersiwn o'r CRC a rennir yng nghylch cyfarfodydd mis Medi y Bwrdd a phwyllgorau yn dangos arwyddion o welliant. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi

[9] Mae Datix yn system adrodd am ddigwyddiadau a rheoli risg a ddefnyddir gan sefydliadau gofal iechyd.

[10] Drwy hyn, rydym yn golygu ar gyfer fersiynau Mawrth, Mai, a Gorffennaf a rennir yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau.

[11] Yn yr adroddiad cryno mae colofn â'r label 'disgrifiad', ond ar gyfer rhai risgiau mae'r golofn hon yn ailadrodd y rheolaethau cyfredol sydd ar waith, ar gyfer rhai rhywfaint o wybodaeth gyd-destunol bellach, ar gyfer rhain, rywfaint o ddiweddariad naratif ar gynnydd, ac i rai eraill mae'n ymddangos ei fod yn cynnwys camau gweithredu a fwriedir ond heb ddyddiadau targed.

gweithredu i lenwi rôl rheoli risg gorfforaethol allweddol, a ddylai ganiatáu i'r Ymddiriedolaeth ailsefydlu'r grŵp goruchwylio risg ar draws yr Ymddiriedolaeth i wella’r gwaith o adrodd am risg ymhellach. Mae cydnabyddiaeth ar draws y Bwrdd bod angen gwelliannau pellach i sicrhau bod adroddiad y CRC yn diwallu anghenion craffu a sicrwydd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu sicrhau bod y CRC yn cynnwys gweithredoedd CAMPUS yn gyson ac yn disgrifio'r risg yn well yn hytrach na'r rheswm pam y daeth y risg i fodolaeth. Mae Aelodau Annibynnol hefyd wedi nodi'r angen i sicrhau bod adrodd yn tynnu sylw at effaith gronnol risgiau cysylltiedig, uwchlaw ac islaw'r trothwy[12].

69 Serch hynny, rydym wedi gweld gwaith craffu a herio risgiau corfforaethol da, gydag ymatebion priodol a llawn gan arweinwyr priodol. Rydym hefyd wedi arsylwi trafodaethau ar risgiau sy'n triongli eitemau eraill a pherfformiad ar yr agenda fel y bo'n briodol. Mae'r Bwrdd wedi nodi awydd i weld papurau a thrafodaethau ar risg yn canolbwyntio ar sicrhau bod camau gweithredu arfaethedig i leihau risg yn cael effaith amlwg.

## Dull corfforaethol o oruchwylio perfformiad sefydliadol

70 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar berfformiad sefydliadol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o’r canlynol:

- bod fframwaith rheoli perfformiad priodol, cynhwysfawr, a chyfredol ar waith, wedi'i ategu gan rolau a chyfrifoldebau clir;
- bod y Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar berfformiad sefydliadol.

71 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei dull o adrodd, goruchwylio a chraffu ar berfformiad sefydliadol**.

72 Yn ein hasesiad strwythuredig blaenorol, dywedom fod yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i gryfhau ei dull o adrodd, goruchwylio a chraffu ar berfformiad sefydliadol. Mae'r atebolrwydd a'r amlder ar gyfer adolygu perfformiad ar lefel gwasanaeth, rheolaeth, pwyllgor a Bwrdd yn parhau i fod yn briodol.

73 Mae adroddiad clawr y fframwaith rheoli perfformiad ar lefel Bwrdd, yn ddefnyddiol, yn canolbwyntio ar feysydd sydd angen mwy o sylw. Yn gyffredinol, mae'r papur yn cynnwys naratif a data esboniadol (lle bo'n briodol) i esbonio perfformiad, y camau gweithredu uniongyrchol a thymor hwy y bwriedir eu cymryd i ysgogi gwelliant, a'r risgiau a allai effeithio ar berfformiad yn y dyfodol.

74 Rydym yn parhau i arsylwi mewn cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau ar drafodaethau a herio effeithiol pan nad yw perfformiad cystal ag y dylai fod, ac ymatebion llawn, agored a phriodol.

[12] Mae risgiau gweithredol diogelwch ac ansawdd sy'n sgorio dros 12 yn cael eu huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, ar gyfer pob risg arall mae'r trothwy yn 15.

75 Y llynedd, gwnaethom adrodd bod yr Ymddiriedolaeth yn bwriadu datblygu mesurau pellach mewn rhai meysydd, gan gynnwys canlyniadau a phrofiad cleifion, profiad staff, amrywiaeth, a'r Gymraeg. Mae hyn yn parhau i fod yn wir. Mae'r Ymddiriedolaeth yn blaenoriaethu datblygu mwy o ddangosyddion ansawdd i gefnogi'r gofyniad adrodd ansawdd 'bob tro'[13] ac i ddangos gwelliant mewn ansawdd.

## Dull corfforaethol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau

76 Byddwn yn ystyried dull corfforaethol yr Ymddiriedolaeth o oruchwylio a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn ein hadolygiad ar wahân o'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion o'n Hadolygiad 2022 o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd.

## Dull corfforaethol o dracio argymhellion

77 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar systemau ar gyfer tracio cynnydd i fynd i'r afael ag argymhellion a chanfyddiadau archwilio ac adolygu. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o:

- systemau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer tracio ymatebion i archwiliad ac argymhellion a chanfyddiadau adolygiadau eraill mewn modd amserol.

78 Canfuom fod **gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da o hyd ar gyfer goruchwylio a chraffu ar gynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion archwilio ac adolygu**.

79 Mae gan yr Ymddiriedolaeth system effeithiol o hyd ar gyfer tracio argymhellion. Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn adolygu traciwr argymhellion archwilio llawn bob mis. Caiff y traciwr ei adolygu ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio. Mae'n cynnwys yr argymhellion hwyr a'r rhai sydd wedi cau. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r argymhellion sydd wedi cau unwaith y bydd yn sicr bod camau gweithredu a gymerwyd yn briodol. Ddwywaith y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn y traciwr llawn, sydd hefyd yn cynnwys argymhellion nad ydynt yn hwyr.

80 Mae yna draciwr Gwella Ansawdd a Diogelwch ar wahân ar gyfer olrhain cynnydd argymhellion a chamau gweithredu sy'n ymwneud ag ansawdd, diogelwch a pherfformiad gwasanaethau. Derbyniwyd y traciwr gyntaf gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn 2019, er na chafodd ei gynnwys ar yr agenda wedi hynny tan fis Mai 2023. Ar hyn o bryd, mae'n cynnwys argymhellion arolygiaeth a rheoleiddiol, er bod cynlluniau i gynnwys argymhellion o adroddiadau/adolygiadau

[13] Mae 'bob tro' yn golygu bod sefydliadau'n coladu, monitro ac yn sicrhau bod gwybodaeth am ansawdd eu gwasanaethau ar gael yn rhwydd i'w poblogaeth a'u rhanddeiliaid, o fewn y sefydliad ac yn allanol.

eraill megis Ymweliadau Her 15 Cam, ymweliadau Llais, adolygiadau cymheiriaid ac adroddiadau a gomisiynir yn allanol. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud ar y traciwr, a'r bwriad yw y bydd y Grŵp Ansawdd a Diogelwch Integredig yn cynnal goruchwyliaeth weithredol, gyda'r oruchwyliaeth weithredol yn cael ei darparu gan y Tîm Rheoli Gweithredol. Bydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn derbyn y traciwr ar gyfer sicrwydd gyda ffocws ar feysydd o ddiffyg cydymffurfio.

# Dull corfforaethol o gynllunio

81 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau corfforaethol a goruchwylio eu cyflawniad.

82 Canfuom fod **gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol o hyd ar gyfer cynhyrchu, goruchwylio a chraffu ar ddatblygu a chyflwyno strategaethau a chynlluniau corfforaethol**.

## Dull corfforaethol o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau

83 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o gynhyrchu, goruchwylio a chraffu ar ddatblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o’r canlynol:

- gweledigaeth glir a gymeradwywyd gan y Bwrdd, amcanion priodol a strategaeth hirdymor ar waith sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, wedi'u gwreiddio mewn iechyd poblogaeth, ac wedi'u llywio gan ddadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau a risgiau;
- trefniadau corfforaethol priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer datblygu a chynhyrchu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI), a chynlluniau corfforaethol eraill;
- y Bwrdd yn craffu ar y CTCI a chynlluniau corfforaethol eraill yn briodol cyn eu cymeradwyo.

84 Canfuom fod **gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol o hyd ar gyfer cynhyrchu, goruchwylio a chraffu ar ddatblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol.**

85 Mae strategaeth hirdymor yr Ymddiriedolaeth 'Cyrchfan 2033' yn seiliedig ar strategaethau galluogi (digidol, ystadau, pobl a chynaliadwyedd) a strategaethau ar wahân ar gyfer Gwasanaeth Canser Felindre, a Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau Cymru. Ers mis Hydref 2023, mae gwaith helaeth wedi'i wneud i ymgysylltu â thua 800 o randdeiliaid mewnol ac allanol i ofyn am eu barn ar flaenoriaethau clinigol a gwyddonol yr Ymddiriedolaeth. Roedd yr wybodaeth a gynhyrchwyd yn sail i ddatblygiad Strategaeth Glinigol a Gwyddonol yr Ymddiriedolaeth, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi 2024. Y cam nesaf fydd datblygu cynllun cyflawni i sicrhau bod y nodau a'r amcanion a nodir yn y strategaeth yn cael eu cyflawni.

86 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â threfniadau cynllunio corfforaethol effeithiol. Caiff y broses gynllunio ei chydlynu gan Dîm Cynllunio Strategol yr Ymddiriedolaeth, gyda chefnogaeth Rheolwyr Cynllunio ym mhob adran yn ogystal â'r Tîm Cyllid ac mae'n cael ei goruchwylio gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol wrth ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Mae canllawiau cynllunio canolog yn cefnogi datblygiad cynlluniau, gan gynnwys y CTCI.

87 Llywiwyd CTCI 2024-27 yr Ymddiriedolaeth drwy ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol, comisiynwyr, a defnyddwyr gwasanaethau. Fe'i fframir o fewn 'Cyrchfan 2033' ac mae'n dwyn ynghyd uchelgeisiau uniongyrchol, canolig a hirdymor y sefydliad. Yr egwyddor graidd yw ymrwymiad i ansawdd a diogelwch gyda'r nod o roi cleifion a rhoddwyr wrth wraidd popeth y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud, gan weithio tuag at yr ansawdd gorau posibl, diogelwch a phrofiad, a dysgu a gwella parhaus.

88 Mae yna nifer o risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni CTCI 2024-27 ac mae'r Ymddiriedolaeth yn deall y rhain yn dda. Mae'r risgiau'n cynnwys cydbwyso'r galw a'r capasiti, y gallu i recriwtio gweithlu, llesiant staff a bod â chyllid digonol. Mae'r risgiau wedi'u nodi'n glir yn Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth.

89 Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddealltwriaeth dda o'r galw am wasanaethau gwaed a chanser. Mae cydnabyddiaeth bod angen lefelau cynyddol o effeithlonrwydd a chynhyrchiant, ynghyd ag adnabod a gweithredu datblygiadau meddygol, gwyddonol a thechnolegol i gynnal sefyllfa gynaliadwy. Mae CTCI 2024-27 hefyd yn nodi'r camau sydd eu hangen i weithredu trawsnewid gwasanaethau, lleihau anghydraddoldebau, gwella gwasanaethau digidol, cynyddu darpariaeth gwasanaethau canser allgymorth, datblygu gwasanaethau cynaliadwy a darparu rhaglenni seilwaith.

90 Cafwyd ymgysylltiad ar lefel Bwrdd drwy gydol datblygiad CTCI 2024-27. Bu'r Bwrdd a'r Pwyllgor Datblygu Strategol yn craffu ac yn herio'r fersiwn ddrafft. Cymeradwyodd y Bwrdd CTCI 2024-27 yn ffurfiol ym mis Mawrth 2024, a chafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen ofynnol. Fe'i paratowyd yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru ac mae'n rhoi sylw priodol i weithrediadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer y cyfnod o dair blynedd. Cymeradwywyd CTCI 2024-27 gan Lywodraeth Cymru a nododd nifer fach o amodau atebolrwydd; y rhain yw gweithredu'r strategaethau recriwtio a chadw, sicrhau bod iechyd meddwl a llesiant meddyliol cleifion yn cael eu cefnogi, sicrhau bod argymhellion yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig[14] posibl yn cael eu deddfu, a chydweithio i gytuno ar gyllid cytundeb tymor hir gyda sefydliadau sy'n ariannu gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth.

[14] Mae'r Ymchwiliad Gwaed Heintiedig yn ymchwiliad statudol cyhoeddus annibynnol a sefydlwyd i archwilio'r amgylchiadau pan gafodd pobl a gafodd eu trin gan wasanaethau iechyd gwladol yn y DU waed heintiedig a chynhyrchion gwaed heintiedig, yn enwedig yn y 1970au a'r 1980au.

91 Mae gwaith i ddatblygu CTCI 2025-28 ar y gweill, a chytunwyd ar yr amserlen ar gyfer gwaith craffu'r Bwrdd. Mae Aelodau Annibynnol eisiau sicrhau bod amser priodol ar gyfer craffu yng nghamau cynnar y datblygiad. Bydd y Bwrdd Clinigol a Gwyddonol yn chwarae rhan allweddol wrth lywio'n glinigol ac yn wyddonol, ddatblygiad y CTCI a'r blaenoriaethau a nodir ynddo.

## Dull corfforaethol o oruchwylio'r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau

92 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar weithredu a chyflwyno cynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- cynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y CTCI, sy'n cynnwys blaenoriaethau/amcanion strategol clir a cherrig milltir CAMPUS, targedau a chanlyniadau sy'n cynorthwyo monitro ac adrodd;
- bod y Bwrdd yn monitro gweithredu a chyflawni cynlluniau corfforaethol yn briodol, gan gynnwys y CTCI.

93 Canfuom fod **y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnwys amcanion a chamau gweithredu clir, wedi'u cefnogi gan amserlenni ar gyfer cyflawni a chanlyniadau mesuradwy a fwriadwyd, gyda threfniadau da ar gyfer goruchwylio a chraffu ar gyflawni**.

94 Y llynedd, gwelsom er bod CTCI 2023-26 yn cynnwys amcanion a chamau gweithredu clir a gefnogir gan amserlenni ar gyfer cyflawni a chanlyniadau mesuradwy bwriadedig ar gyfer gwasanaethau gwaed a chanser, nid oedd yr un eglurder yn amlwg ar gyfer swyddogaethau corfforaethol trawsbynciol. Gwnaethom adolygu'r amcanion/camau gweithredu a nodir yn CTCI 2024-27. Yn gadarnhaol, mewn perthynas â Gwasanaeth Canser Felindre, a Gwasanaethau Gwaed a Thrawsblaniadau Cymru, gwelsom fod pob amcan/gweithred ategol yn cynnwys buddion bwriadedig mesuradwy priodol. Mae hefyd yn nodi blaenoriaethau ansawdd clir ledled yr Ymddiriedolaeth gydag eglurder ar sut y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu cyflawni a beth yw'r canlyniadau bwriadedig. O ran blaenoriaethau gwasanaethau galluogi ledled yr Ymddiriedolaeth, mae'r blaenoriaethau wedi'u nodi yng nghyd-destun cyflawni amcanion strategol cyffredinol yr Ymddiriedolaeth. Er nad oedd CTCI 2024-27 yn cynnwys eglurder ynghylch y canlyniadau bwriadedig ar gyfer blaenoriaethau galluogi gwasanaethau, nodwn fod y rhain wedi'u mynegi yn adroddiad cynnydd chwarter 1 2024-25 (**Atodiad 2 A3 2022**). Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym eu bod yn bwriadu ymgorffori mwy o welededd o ran galluogi blaenoriaethau gwasanaethau yn CTCI 2025-28.

95 Cyflwynir adroddiadau cynnydd chwarterol ar gyfer y CTCI i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad a'r Bwrdd. Mae adroddiadau cynnydd yn defnyddio sgoriau Coch, Melyn, Gwyrdd (CMG) i amlygu a yw cynnydd ar y trywydd iawn, ac yn erbyn pob gweithred mae crynodeb o'r cynnydd hyd yn hyn. Mae'r cynnydd yn

erbyn y mwyafrif helaeth o weithredoedd wedi aros ar y trywydd iawn drwy gydol y flwyddyn.

96 Y llynedd, canfuom fod adroddiadau cynnydd ar gyflawni'r CTCI wedi'i gyfyngu i amcanion a gweithredoedd cefnogi ar gyfer Gwasanaeth Canser Felindre, a Gwasanaethau Gwaed a Thrawsblaniadau Cymru. Nid oedd adroddiadau'n cynnwys unrhyw un o'r amcanion ar gyfer swyddogaethau trawsbynciol gwasanaethau galluogi ar draws yr Ymddiriedolaeth. Eleni, canfuom fod adroddiadau cynnydd ar gyflawni CTCI 2023-26 ar gyfer tri chwarter cyntaf 2023-24 wedi hepgor adroddiadau cynnydd ar y gwasanaethau galluogi ar draws yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, roedd adroddiad cynnydd ar gyflawni chwarter pedwar yn eu cynnwys, felly hefyd adroddiad cynnydd chwarter un 2024-25 ar gyfer CTCI 2024-27.

97 Er bod y datblygiadau hyn yn gadarnhaol, mae angen i'r Ymddiriedolaeth ystyried o hyd sut mae'n darparu eglurder ynghylch p’un a yw'r effeithiau arfaethedig wedi'u cyflawni ai peidio (**Atodiad 2 A4 2022**).

# Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

98 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o reoli ei hadnoddau ariannol.

99 Canfuom fod **gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da o hyd ar gyfer cynllunio ariannol ac ar gyfer rheoli a monitro ei sefyllfa ariannol**.

## Amcanion ariannol

100 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o gyflawni ei hamcanion ariannol allweddol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o’r canlynol:

- bod y sefydliad yn cyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2023-24, a'r cyfnod treigl o dair blynedd o 2021-22 i 2023-24;
- bod y sefydliad ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau yn 2024-25.

101 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dyletswyddau ariannol ar gyfer 2023-24 ac yn rhagweld y bydd yn mantoli’r cyfrifon yn 2024-25**.

102 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol yn 2023-24, gan adrodd am warged bach o £42,000 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol[15]. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth hefyd ei dyletswydd ariannol statudol i sicrhau ei bod yn mantoli’r cyfrifon dros y cyfnod treigl tair blynedd 2021-24, gan adrodd am warged cyffredinol dros y tair blynedd o £159,000. Roedd gwariant yr Ymddiriedolaeth ar raglenni cyfalaf yn cyd-fynd â'r dyraniad cyfalaf. Ar 31 Gorffennaf 2023,

[15] O'r gwarged o £42,000, mae £30,000 yn ymwneud â'r Ymddiriedolaeth, a'r gweddill yn ymwneud â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

ysgrifennodd Prif Weithredwr GIG Cymru at holl sefydliadau'r GIG i ailddatgan y gofyniad i amlinellu'r camau y gofynnwyd amdanynt gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i leihau'r diffyg ariannol a ragwelir gan GIG Cymru yn 2023-24. Gyda chytundeb y Bwrdd, cyfrannodd yr Ymddiriedolaeth £2.54 miliwn mewn perthynas â gostyngiad cost at sefyllfa ariannol gyffredinol y GIG.

103 O fis 4 2024-25 (diwedd mis Gorffennaf 2024), roedd yr Ymddiriedolaeth yn rhagweld sefyllfa o fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd blwyddyn. Fodd bynnag, mae hyn yn tybio bod yr holl incwm a gynlluniwyd yn dod i law, y cyflawnir targedau'r cynllun arbedion, a bod yr holl risgiau ariannol yn cael eu lliniaru yn ystod 2024-25.

## Dull corfforaethol o gynllunio ariannol

104 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar gynllunio ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- bod trefniadau cynllunio ariannol corfforaethol clir a chadarn ar waith;
- bod y Bwrdd yn craffu ar gynlluniau ariannol yn briodol cyn iddynt gael eu cymeradwyo;
- arbedion cynaliadwy, realistig, ac wedi'u costio'n gywir a chynlluniau gwella costau ar waith sydd wedi'u cynllunio i gefnogi cynaliadwyedd ariannol a thrawsnewid gwasanaethau;
- y Bwrdd yn craffu ar arbedion a chynlluniau gwella costau yn briodol cyn eu cymeradwyo.

105 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â dull cadarn o gynllunio ariannol a chyflawni arbedion.**

106 Craffodd y Pwyllgor Datblygu Strategol ar Gynllun Ariannol busnes craidd yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2024-25 a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2024. Mae'r cynllun yn cydnabod yr her ariannol o fewn amgylchedd gweithredu mewnol ac allanol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r cynllun yn nodi'r heriau sylweddol wrth ymateb i'r galw cynyddol disgwyliedig am wasanaethau wrth ymdrin â nifer o ddatblygiadau strategol mawr fel rhan o raglen drawsnewid yr Ymddiriedolaeth. Mae'r cynllun yn seiliedig ar gyfres glir o dybiaethau ynghylch incwm disgwyliedig yr Ymddiriedolaeth gan ei chomisiynwyr, cyllid Llywodraeth Cymru, a chwyddiant cyflogau. Nodir yn glir risgiau ariannol i gyflawni'r cynllun yn llwyddiannus, yn ogystal â'r camau y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i'w rheoli a'u lliniaru yn eu herbyn.

107 Mae Gwasanaethau Canser Felindre yn cael eu hariannu gan fyrddau iechyd sy'n talu am y gwasanaethau y maent yn eu comisiynu gan yr Ymddiriedolaeth. Methodd trafodaethau parhaus gyda'r byrddau iechyd i ail-leoli'r ffioedd ar gyfraddau cost cyfredol i gyflawni'r ail-ymgartrefu'n llawn y gofynnodd yr Ymddiriedolaeth amdano. Fodd bynnag, cyflawnwyd sefyllfa o gyfaddawd yn haf 2024. Mae hyn wedi arwain at effaith ariannol ar yr Ymddiriedolaeth yn erbyn Cynllun Ariannol 2024-25 o ostyngiad o £318,000 mewn incwm dewisol rheolaidd a

gostyngiad o £483,000 mewn incwm nad yw'n rheolaidd. Mae'r diffyg incwm wedi'i adfer trwy gyfuniad o gynyddu targedau arbedion, oedi penderfyniadau buddsoddi, a lliniaru pwysau costau.

108 Ar gyfer 2024-25, gosododd yr Ymddiriedolaeth ofyniad arbedion o £2.606 miliwn yn wreiddiol, ond cynyddwyd hwn i £2.875 miliwn ym mis Gorffennaf 2024 oherwydd diffyg cyllid cytundeb hirdymor – mae £1.267 miliwn yn rheolaidd ac mae £1.608 miliwn yn swm nad yw'n rheolaidd. O'r targed arbedion o £2.875 miliwn, mae £1.193 miliwn wedi'i gategoreiddio fel cynlluniau arbedion a'r balans, £1.682 miliwn, yn gynlluniau cynhyrchu incwm.

109 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod ailgynllunio gwasanaethau a strwythurau cefnogol yn parhau i fod yn faes trawsnewid allweddol iddi ganolbwyntio arno er mwyn dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd yn y ffyrdd o weithio. Yn dilyn asesiad manwl o gynlluniau arbedion, mae sawl cynllun gweithlu a chadwyni cyflenwi wedi cael eu hasesu ers hynny fel rhai na ellir eu cyflawni. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth, er ei bod yn parhau i fod yn ymrwymedig i ailgynllunio gwasanaethau i ddod o hyd i effeithlonrwydd, mae ei gallu i ddeddfu newid yn heriol oherwydd y lefelau uchel o swyddi gwag a salwch. Effeithiwyd hefyd ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddod o hyd i arbedion cadwyni cyflenwi caffael gan gapasiti'r tîm caffael ac amodau'r farchnad sydd wedi gweld cynnydd sylweddol mewn costau ar gyfer deunyddiau a gwasanaethau. O ganlyniad, gofynnwyd i'r is-adrannau adolygu eu cynlluniau arbedion arfaethedig a sefydlu cynlluniau gweithredu neu nodi cynlluniau arbedion amgen, gyda chefnogaeth cynlluniau gweithredu. Cytunwyd ar gynlluniau arbedion diwygiedig ac, o fis 4 2024-25, roedd cyflawni arbedion ar y trywydd iawn.

## Dull corfforaethol o reoli ariannol

110 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull cadarn o oruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- rheolaethau effeithiol ar waith sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Cadw a Dirprwyo;
- y Bwrdd yn goruchwylio'n briodol y trefniadau a'r perfformiad sy'n ymwneud â chamau gweithredu tendr unigol, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll;
- trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith sy'n galluogi'r Bwrdd i ddeall ysgogwyr costau a sut maent yn effeithio ar gyflawni amcanion strategol;
- cyflwynwyd datganiadau ariannol y sefydliad ar gyfer 2023-24 ar amser, nid oeddent yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol, a chawsant farn archwilio ddiamod.

111 Canfuom fod **gan yr Ymddiriedolaeth reolaethau da o hyd ar gyfer rheoli'r defnydd o'i hadnoddau ariannol**.

112 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â rheolaethau effeithiol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'i Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'i Chynllun Cadw a Dirprwyo.

113 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio ar gaffael, colledion, taliadau arbennig a materion gwrth-dwyll i gefnogi goruchwylio, craffu a herio effeithiol. Mae adroddiadau caffael yn parhau i nodi'n glir nifer y Gweithredoedd Tendr Unigol ac Awdurdodiadau Dyfynbrisiau Unigol a'r rhesymau pam na ddilynwyd gweithdrefnau caffael safonol.

114 Mae trefniadau rheoli ariannol yn effeithiol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gosod cyllidebau clir a thargedau arbedion ar gyfer pob un o'r adrannau a'r swyddogaethau trawsbynciol corfforaethol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddealltwriaeth dda o'i phwysau costau sydd wedi'u nodi'n glir yn ei Chynllun Ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys materion sy'n ymwneud â sicrhau bod data gweithgarwch yn cael ei gipio a'i ad-dalu'n llawn, a phwysau costau gweithredol a allai fod yn fwy nag y gellid eu rheoli fel arfer drwy bwysau rheoli cyllidebol neu drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yr Ymddiriedolaeth.

115 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ddatganiadau ariannol drafft 2023-24 o ansawdd da i'w harchwilio erbyn dyddiad cau Llywodraeth Cymru. Trafododd y Pwyllgor Archwilio y rhain ar 26 Gorffennaf 2024. Fodd bynnag, gwnaethom gyhoeddi barn archwilio amodol oherwydd taliad setliad i gyn-aelod o staff. Er bod y taliad wedi'i restru yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol fel rhan o'r cyfrifon ariannol, ni chafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn ôl yr angen. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu i sicrhau bod rheolaethau priodol yn cael eu rhoi ar waith.

## Trosolwg y bwrdd ar berfformiad ariannol

116 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn goruchwylio ac yn craffu ar berfformiad ariannol yn briodol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- bod y Bwrdd yn derbyn adroddiadau cywir, tryloyw ac amserol ar berfformiad ariannol, yn ogystal â'r heriau ariannol, risgiau, a gweithredoedd lliniaru allweddol;
- bod y Bwrdd yn craffu ar asesiadau parhaus o sefyllfa ariannol y sefydliad yn briodol.

117 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gynhyrchu adroddiadau ariannol clir a hygyrch sy'n cefnogi monitro a chraffu effeithiol**.

118 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i adrodd am berfformiad ariannol ym mhob cyfarfod cyhoeddus o'r Bwrdd a chyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ei gwefan ochr yn ochr â'i phapurau Bwrdd a phwyllgorau. Mae adroddiadau cyllid yn darparu gwybodaeth amserol ac o ansawdd uchel ac yn cynnwys cymysgedd da o destun ac arddangosion i gyfleu negeseuon allweddol. Mae'r adroddiadau'n nodi sefyllfa refeniw, cyfalaf ac arbedion yr Ymddiriedolaeth, ac yn tynnu sylw at risgiau

ariannol allweddol yn glir gyda'u gweithredoedd lliniaru cysylltiedig a'u goblygiadau cost.

119 Rydym yn parhau i weld gwaith craffu a herio da ynghylch sefyllfa ariannol y sefydliad yng nghyfarfodydd y Bwrdd a’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 1** isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth wedi'i chyfyngu i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

| Elfen o ddull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| Arsylwadau | Gwnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad;<br>• Y Pwyllgor Datblygu Strategol;<br>• Y Pwyllgor Archwilio |
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â'r Uwch Swyddogion a'r Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Cadeirydd y Bwrdd;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio;<br>• Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro;<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd;<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol; |

| Elfen o ddull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | • Cyfarwyddwr Dros Dro Llywodraethu Corfforaethol . |
| Dogfennau | Rydym wedi adolygu ystod eang o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cylchoedd Gorchwyl rhaglenni gwaith, agendâu, papurau a chofnodion y Bwrdd a Phwyllgorau;<br>• dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau o Fuddiannau, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch;<br>• strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig;<br>• dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol;<br>• adroddiadau allweddol sy'n ymwneud â pherfformiad a chyllid y sefydliad;<br>• Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol;<br>• polisïau a gweithdrefnau perthnasol;<br>• adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal ac Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Gwrth-Dwyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill. |

# Atodiad 2

## Cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol

Mae **Arddangosyn 2** yn nodi'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth wrth weithredu argymhellion o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Tryloywder busnes y Bwrdd (2023)**<br>A1 Anaml y bydd yr Ymddiriedolaeth yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w chyfarfodydd Bwrdd ar ei sianeli cyfryngau cymdeithasol. Dylai'r Ymddiriedolaeth sefydlu proses i sicrhau bod nodiadau atgoffa mwy aml am gyfarfodydd Bwrdd yn cael eu postio ar y cyfryngau cymdeithasol. | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 13 |
| **Tryloywder busnes y Bwrdd (2023)**<br>A2 Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r hyn sydd i'w drafod yng nghyfarfodydd preifat y Bwrdd neu bwyllgorau nac yn cyhoeddi crynodebau o'r hyn a drafodir. Dylai'r ymddiriedolaeth:<br>• gynnwys rhestr o'r eitemau sydd i'w trafod mewn sesiynau preifat ar agendâu cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a phwyllgorau;<br>• darparu (a chyhoeddi) crynodebau) byr) o drafodaethau preifat y Bwrdd a Phwyllgorau. | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 15<br><br>**Ar y gweill** – gweler paragraff 15 |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Tryloywder busnes y Bwrdd (2023)**<br>A3 Cyhoeddir cofnodion pwyllgorau ar wefan yr Ymddiriedolaeth pan gânt eu cynnwys mewn papurau ar gyfer y cyfarfod nesaf, fel arfer ddeufis yn ddiweddarach. Dylai'r Ymddiriedolaeth gyhoeddi cofnodion heb eu cadarnhau cyn gynted â phosibl ar ôl cyfarfodydd pwyllgorau, yn dilyn gwirio cywirdeb, gan barhau i gadw cadarnhad llawn o gywirdeb aelodau'r pwyllgor yn y cyfarfod canlynol. | **Ar y gweill** – gweler paragraff 18 |
| **Adroddiadau'r Bwrdd a Phwyllgorau (2023)**<br>A4 Ym mhapurau clawr y Bwrdd a phwyllgorau, yn aml nid yw'r crynodeb o drafodaethau blaenorol a gynhaliwyd mewn fforymau eraill yn ei gwneud yn glir beth oedd y canlyniad ac a oes unrhyw gamau cytunedig wedi'u gweithredu. Dylai'r Ymddiriedolaeth sefydlu proses i sicrhau bod crynodebau o drafodaethau blaenorol yn cynnwys y camau gweithredu y cytunwyd arnynt o ganlyniad, ac a ydynt wedi cael eu gweithredu. | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 34 |
| **Sicrwydd risg gweithredol (2023)**<br>A5 Nid oedd papurau clawr diweddar ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cynnwys y rhesymau pam nad yw rhai risgiau bellach yn cael eu cynnwys. Mae hyn yn golygu nad oes gan aelodau cyfarfod unrhyw sicrwydd bod y rheswm dros yr hepgoriadau yn ganlyniad i liniaru risg yn cael effaith gadarnhaol. Mewn adroddiadau clawr y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn y | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 66 |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| dyfodol dylai'r Ymddiriedolaeth roi crynodeb o'r rhesymau pam y tynnwyd risgiau o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. | |
| **Adroddiadau'r Bwrdd a'r Pwyllgor (2023)**<br>A6 Yn aml, mae adroddiadau, papurau a chyflwyniadau'r Bwrdd a'r pwyllgor yn fanwl ar waith, ac yn canolbwyntio ar weithgareddau, ond yn darparu llai o eglurder ar effeithiau mentrau neu gamau a gymerir. Dylai'r Ymddiriedolaeth sefydlu proses i sicrhau bod noddwyr Arweiniol Gweithredol yn adolygu i sicrhau bod adroddiadau, papurau a chyflwyniadau yn canolbwyntio ar faterion ac effeithiau allweddol. | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 37 |
| **Sefydlu canlyniadau mesuradwy ar gyfer blaenoriaethau strategol (2022)**<br>A3 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi trosi ei blaenoriaethau strategol i amcanion a chamau gweithredu penodol yn y CTCI 2022-25 (gan gynnwys amserlenni ar gyfer cyflawni). Dylai'r Ymddiriedolaeth geisio mynegi'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer pob blaenoriaeth/gweithred strategol yn y dyfodol, gan gynnwys sut olwg fyddai ar lwyddiant. | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 95 |
| **Gwella adroddiadau ar ddarparu CTCI (2022)** | |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| A4 Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer adrodd am gyflenwi'r CTCI yn rhesymol, ond mae angen iddi ddisgrifio'n well yr effaith y mae'r camau gweithredu yn ei chael. Dylai'r Ymddiriedolaeth adrodd ar effaith y camau gweithredu a gyflwynwyd hyd yma i ganiatáu i'r Bwrdd ddeall yn well i ba raddau y mae cyflawni'r CTCI yn gwneud gwahaniaeth a phenderfynu ar unrhyw gamau y mae angen eu cyflwyno i'r CTCI nesaf. | **Ar y gweill** – gweler paragraff 98 |
| **Sicrwydd Bwrdd a Rheoli Risg (2019)**<br>**A1a** Dylai'r Ymddiriedolaeth gwblhau datblygiad ei Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yn gyflym, gan sicrhau ei fod yn cael ei ategu'n briodol gan drefniadau rheoli risg cyfoes. Yn benodol, dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu'r prif risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol a sicrhau bod y sicrwydd angenrheidiol wedi'i fapio a'i adlewyrchu yn Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth newydd. | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 59 |
| **Craffu Archwilio Clinigol (2018)**<br>**A5c** Dylai'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch sicrhau ei hun yr ymdrinnir â chanfyddiadau archwilio clinigol. | Heb ei asesu, i'w ystyried yn ein hadolygiad o gynnydd i fynd i'r afael ag argymhellion o'n Hadolygiad 2022 o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd. |

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English